

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021

Pwynt Craffu ar Rinweddau: Bwriedir i Bennod 3 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gael ei chychwyn ar yr un pryd â Phennod 1, ar 1 Ebrill 2021. Bwriedir i'r gorchymyn cychwyn, sy'n dod â'r darpariaethau hyn i rym, gael ei wneud ym mis Mawrth ar yr un pryd â'r Rheoliadau hyn (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd). Mae Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyr at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n rhoi rhagor o fanylion ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei llunio ar hyn o bryd er mwyn gweithredu Deddf 2021.